STRATEGAETH AR GYFER GWELLA IECHYD A DIOGELWCH GALWEDIGAETHOL YNG NGHYMRU

Mae'r strategaeth hon yn anelu at reoleiddio iechyd a diogelwch yng Nghymru mewn ffordd fwy gydlynus er mwyn sicrhau gwell cydymffurfiaeth. Datblygwyd y strategaeth i gyflwyno dogfen y Comisiwn Iechyd a Diogelwch (HSC) "*Strategaeth ar gyfer Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle hyd at 2010 a Thu Hwnt"* yng Nghymru. Y partneriaid a fu'n cydweithredu i ddatblygu'r strategaeth yw'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE), Awdurdodau Lleol yng Nghymru a Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd.

Datblygwyd y strategaeth i sicrhau iechyd a diogelwch galwedigaethol yng Nghymru mewn ffordd fwy effeithiol, gan ganolbwyntio ar flaenoriaethau, risgiau a pherfformiad gwael i gyflawni canlyniadau amlwg a chynaliadwy. Mae'n ceisio datblygu ar y gwaith da a wnaed eisoes yng Nghymru, yn arbennig o ran gweithio mewn partneriaeth a chyflwyno prosiectau ar y cyd ac o ran datblygu a gweithredu arfer da.

Mae'n ceisio datblygu arfer iechyd a diogelwch mewn ffordd sy'n sicrhau y caiff ymyraethau eu rhoi ar waith a fydd yn arwain at ganlyniadau llwyddiannus y gellir eu hailgynhyrchu yn seiliedig ar ymgysylltiad cadarnhaol a rhyngweithiol â busnesau. Bydd ymyraethau yn seiliedig ar dystiolaeth a risgiau, gan ddefnyddio technegau profedig, ond gan wneud hynny yn ofalus; byddwn yn cynnal cynlluniau peilot ac yn gwerthuso'r technegau newydd y byddwn yn eu cyflwyno. Byddwn yn nodi, yn datblygu ac yn lledaenu arfer da ac yn ei gyflwyno ar ffurf canllawiau.

Mae'r strategaeth yn croesawu ffyrdd newydd o weithio ac yn ceisio dymchwel rhwystrau i weithio'n effeithiol mewn partneriaeth a blaenoriaethau cyffredin. Bydd yn gofyn am gyfaddawd er mwyn gallu datblygu partneriaethau effeithiol. Yn arbennig, mae'n annog gwaith agosach, mwy integredig rhwng yr HSE ac Awdurdodau Lleol, gan adeiladu ar effeithiolrwydd pob un o'r partneriaid ac ategu'r effeithiolrwydd hwnnw, ond ar yr un pryd, heb leihau effeithiolrwydd unigol y partneriaid hynny, a chan ddefnyddio eu cyd-

adnoddau yn well i gynyddu eu heffaith ar sicrhau cydymffurfiaeth a chyflawni canlyniadau cadarnhaol ym maes iechyd a diogelwch galwedigaethol i'r eithaf.

Mae nifer yr achosion o salwch sy'n gysylltiedig â gwaith a nifer y damweiniau a'r anafiadau sy'n deillio o weithgareddau sy'n gysylltiedig â gwaith yn annerbyniol o uchel. Mae'r strategaeth yn cydnabod bod angen amgylchedd gwaith cadarn a bywiog ar Gymru er mwyn iddi fod yn llwyddiannus yn economaidd. Mae'r achos busnes dros well iechyd a diogelwch wedi'i hen sefydlu; mae'r strategaeth yn cydnabod bod damweiniau a salwch yn y gweithle yn arwain at gynhyrchiant is, costau i'r sector gofal iechyd a niwed i unigolion. Mae gweithlu ffit ac iach, o gymhelliant uchel o fudd i fusnes.

Felly, mae'r strategaeth yn ceisio taro'r cydbwysedd cywir rhwng yr angen i leihau beichiau diangen ar fusnes a sicrhau iechyd a diogelwch gweithwyr yng Nghymru, ac eraill y mae gweithgareddau gwaith yn debygol o gael effaith andwyol arnynt. Mae'n seiliedig ar '*Reducing Administrative Burdens: Effective Inspection and Enforcement'* (adolygiad Hampton), agenda *"Adfywio"* y Comisiwn Iechyd a Diogelwch, Rhaglen Fit 3 '*Fit for Work, Fit for Life, Fit for Tomorrow'* y Comisiwn/Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, ynghyd â mentrau Llywodraeth Cynulliad Cymru *"Her Iechyd Cymru", "Creu'r Cysylltiadau"* a *"Rhagoriaeth Cymru"*.

Rydym o'r farn y bydd y strategaeth yn cyflawni'r swyddogaeth rheoleiddio iechyd a diogelwch a ddirprwywyd gan yr HSC i Awdurdodau Lleol a'r HSE mewn ffordd effeithiol, effeithlon a chydlynus, gan godi a chynnal safonau iechyd, diogelwch a lles yn y gweithle er budd y gweithlu ac economi Cymru.

Bydd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn lleihau anafiadau, yn lleihau achosion o salwch ac yn lleihau lefelau absenoldeb yn y gweithle drwy:

1. (i) Rhoi cymorth a chefnogaeth i fusnesau i'w helpu i gydymffurfio.

(ii) Sicrhau cydymffurfiaeth drwy ddefnyddio ymyraethau cymesur wedi'u targedu, gan gydbwyso gwaith ataliol â gwaith ymchwilio.

2. Cyflwyno ymyraethau wedi'u teilwra sy'n ymdrin â themâu allweddol Her Iechyd Cymru a thrwy hynny hyrwyddo iechyd, diogelwch a lles y gweithlu yng Nghymru.
3. Hyrwyddo gwell cydymffurfiaeth drwy ddefnyddio'r ymyraethau priodol yn seiliedig ar dystiolaeth.
4. Canolbwyntio ar flaenoriaethau, risgiau a pherfformiad gwael.
5. Ymgysylltu â'r gweithlu a'u cynrychiolwyr.
6. Nodi, datblygu a lledaenu sail tystiolaeth.
7. Nodi, datblygu a lledaenu arfer da ym maes rheoleiddio a defnyddio'r arfer da hwn i lywio prosiectauar draws Cymru sy'n sicrhau'r effaith fwyaf posibl.
8. Gwneud gwell defnydd o ymgyrchoedd a chyhoeddusrwydd.
9. Creu partneriaethau â sefydliadau a gaiff eu dewis yn ofalus.
10. Cydgyfeirio ein hadnoddau er mwyn sicrhau'r effaith gadarnhaol fwyaf posibl ar iechyd, diogelwch, lles a'r manteision i fusnesau yng Nghymru, gan hyrwyddo iechyd a diogelwch da fel rhan o arfer busnes cadarn a chost effeithiol.
11. Cydgyfeirio ein hadnoddau er mwyn sicrhau'r effaith gadarnhaol fwyaf posibl ar lefelau gwybodaeth ac ymwybyddiaeth cyflogeion a'r hunangyflogedig gan sicrhau lefelau uchel o ymgysylltiad unigol ag iechyd a diogelwch drwy'r gweithlu cyflogedig cyfan yng Nghymru.

Sut y byddwn yn cyflwyno'r Strategaeth ar gyfer gwella Iechyd a Diogelwch yng Nghymru?

Byddwn yn cyflwyno'r Strategaeth Iechyd a Diogelwch i Gymru drwy adeiladu ar y gwaith a wnaed gan bartneriaethau cynharach a chyfredol yng Nghymru, a chan ategu'r gwaith hwn â ffyrdd newydd ac arloesol o weithio.

Yn benodol, byddwn yn:

1. Datblygu a gweithredu agenda ar y cyd, o fis Ebrill 2006, a fydd yn adlewyrchu ac yn cyfrannu at ddyheadau:

   i. Rhaglen Fit 3 y Comisiwn/Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
   ii. Her Iechyd Cymru
   iii. Creu'r Cysylltiadau
   iv. Rhagoriaeth Cymru
   v. Strategaethau Cymunedol

2. Defnyddio ein cyd-adnoddau yn y ffordd fwyaf effeithiol i leihau risgiau yn y gweithle.

3. Nodi a theilwra ymyraethau i ymdrin ag anghenion cenedlaethol a lleol.

4. Cyflwyno system gorfodi gyson, tryloyw, cymesur wedi'i thargedu.

5. Canolbwyntio ymyraethau a gweithgareddau gorfodi ar flaenoriaethau, risgiau a pherfformiad gwael.

6. Cydweithredu â sefydliadau ac asiantaethau priodol eraill i ddatblygu a chyflwyno ymyraethau sy'n sicrhau'r effaith fwyaf posibl.

7. Datblygu ac ychwanegu at sail tystiolaeth i ddangos effeithiolrwydd ymyraethau.

8. Cyflwyno gweithgareddau hyfforddi a datblygu i sicrhau a gwella cymhwysedd ymarferwyr.

9. Rhannu gwybodaeth.

10. Cydweithredu â busnesau, gan hyrwyddo busnesau sy'n dangos esiampl dda a gweithio gyda hwy i ddatblygu a lledaenu arfer da.

11. Dymchwel rhwystrau sy'n atal gweithio ar y cyd.

12. Cyfathrebu'n effeithiol, ar bob lefel, yn fewnol ac yn allanol, gan sicrhau bod ein dulliau o gyfathrebu â busnesau a chyflogeion yn effeithiol, gan gyflwyno buddiannau rheoli iechyd a diogelwch a lefelau absenoldeb oherwydd salwch i fusnesau.

13. Gwerthuso effeithiolrwydd ymyraethau, dysgu o fethiannau a dathlu llwyddiannau.

14. Annog cefnogaeth i'r Safon Iechyd Corfforaethol ar draws pob sector diwydiant a'u hannog i gymryd rhan yn y cynllun.

15. Cyhoeddi adroddiad blynyddol, fydd yn nodi'r hyn a wnaethom a sut y gwnaethom hynny, y cyfraniad a wnaethom i gyflawni nodau a dyheadau'r rhaglenni a nodwyd yn 1 uchod, a sut y byddwn yn lledaenu'r gwersi a ddysgwyd gennym.

Byddwn hefyd yn gweithio gyda sefydliadau eraill yng Nghymru, ac yn annibynnol arnynt, ar brosiectau cenedlaethol a lleol, gan anelu at leihau nifer y damweiniau, yr achosion o salwch a'r lefelau absenoldeb oherwydd salwch er budd busnesau a gweithwyr yng Nghymru. Byddwn yn creu diwylliant o anogaeth a chefnogaeth i fusnesau sy'n cydymffurfio ac ymyraethau a chamau adfer i fusnesau nad ydynt yn cydymffurfio.

Rydym yn rhannu prif nod y Comisiwn Iechyd a Diogelwch sef '*gweld iechyd a diogelwch fel conglfaen cymdeithas wâr a, chyda hynny, cyflawni hanes o iechyd a diogelwch yn y gweithle sy'n arwain y byd'.*